Ysgol Gymraeg Bro Dur
Rhodfa'r Môr/Seaway Parade, Traeth Melyn/Sandfields
Port Talbot, Castell-nedd Port Talbot, SA12 7EQ
(01639) 502895
YsgolBroDurUwchradd@npt.school

04/01/2022

Annwyl Riant / Warchgeidwad,

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, gan obeithio eich bod wedi cael gwyliau dedwydd a chyfle i ymlacio gyda'ch teuluoedd.

Ar ddiwedd tymor y Nadolig, rhannwyd llythyr gyda chi yn amlinellu ein trefniadau ar gyfer y tymor hwn yn sgil cyhoeddiad y Gwenidog Addysg pan gyhoeddwyd **dau ddiwrnod paratoi ar ddechrau'r tymor i ysgolion** i ysgolion asesu eu sefyllfaoedd gan gynllunio ar gyfer y tymor

Yn sgil y gwaith cynllunio ac asesu risg yma, gallwn gadarnhau bydd dysgu rhithiol yn digwydd i **Flwyddyn 7 a 8** Ysgol Gymraeg Bro Dur ar Ionawr **6ed a 7fed** gan ddychwelyd i ddysgu ar safle'r ysgol ar Ionawr 10fed. Bydd Blwyddyn **9, 10 a 11** yn dychwelyd i safle'r ysgol ar Ionawr **6ed**

Y rheswm na fydd pawb yn ôl ar safle'r ysgol ar Ionawr 6ed yw diffyg staffio oherwydd cyfnodau hunanynysu ac ar gyfer y deuddydd yma, mae dosbarthiadau arholiad yn cael eu blaenoriaethu.

Bydd sesiynau cofrestru yn cael eu cynnal gyda disgyblion Blwyddyn 7 a 8 trwy MS Teams am 8.45 fore Iau a bore Gwener er mwyn egluro tasgau'r dydd i'r disgyblion. Bydd y tasgau hyn ar ffurf prosiect Maes Dysgu a Phrofiad a bydd cyfarfod gyda'r Pennaeth Cynnydd am 14.45 i grynhoi gwaith y dydd. Deallwn y bydd hyn yn gallu achosi pwysau ychwanegol i chi fel teuluoedd a diolchwn i chi o flaen llaw am eich cydweithrediad. Bydd y tasgau sydd yn cael eu gosod yn gallu cael eu cwblhau ar gyfrifiadur neu ar bapur – felly dim ond am y ddau gyfnod yma fydd angen i ddisgyblion gael mynediad i'r wê. Gobeithiwn y bydd hyn yn hwyluso pethau i chi. Bydd y cyflwyniadau i gyd yn cael eu ffilmio ac ar gael ar bob amser o'r dydd.

Pan fydd y dysgwyr yn dychwelyd, byddan nhw'n aros mewn swigod blwyddyn a bydd disgwyl i bob dysgwr gyrraedd yr ysgol **gyda mwgwd.** Derbyniodd pob dysgwr focs o brofion LFD ar ddiwedd y tymor, bydd angen i bawb gymryd **3 prawf yn ystod y 3 diwrnod** cyn dychwelyd i'r ysgol. Yn yr un modd â'r tymor diwethaf, hyderwn y byddwch yn ein cefnogi'n llwyr yn y gweithdrefnau hyn i gadw ein dysgwyr a'n staff yn ddiogel.

**I grynhoi:**

- **Bydd Blwyddyn 9, 10 a 11 yn unig yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Iau, Ionawr 6ed**
- **Bydd pawb yn dychwelyd ar Ionawr 10fed.**

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad mewn sefyllfa sydd yn newid yn gyson

Mrs Laurel Davies, Pennaeth

Ysgol Gymraeg Bro Dur
Rhodfa'r Môr/Seaway Parade, Traeth Melyn/Sandfields
Port Talbot, Castell-nedd Port Talbot, SA12 7EQ
(01639) 502895
YsgolBroDurUwchradd@npt.school

04/01/2022

Dear Parent / Guardian,

Happy New Year to you all and I sincerely hope that you had an enjoyable and restful Christmas period.

At the end of the Christmas term, we shared with you a letter outlining our arrangements for this term following the Education Minister's announcement of **two preparation days** at the beginning of term to enable schools to plan for the Spring Term.

Following a risk assessment due to staffing shortages, we can confirm that **Years 7 and 8** will learn remotely on **January 6th and 7th** with a return to onsite learning on **January 10th.**

**Years 9, 10 and 11** will return to the school site on **January 6th** as planned, as we have had to prioritise examination classes for these two days.

**Year 7 and 8 online arrangements:**
Registration sessions will be held with Year 7 and 8 pupils through MS Teams at 8.45 on Thursday and Friday morning to explain the day's tasks to the pupils. These tasks will take the form of an Area of Learning and Experience project and there will be a meeting with the Head of Progress at 14.45 to summarize the day's work. We understand that this could cause additional stress for you as families and we thank you in advance for your co-operation. Tasks set can be completed on computer or on paper - so pupils will only need to access the internet for these two periods. We hope this will make things easier for you. All presentations will be filmed and available on demand.

When pupils return, they will stay in year bubbles and all pupils are expected to arrive at school with a mask. All pupils received a box of LFD tests at the end of term, everyone will need to take 3 tests during the 3 days before returning to school. We trust that you will fully support us in these procedures in order to keep our learners and staff as safe as possible.

**To conclude:**

- **Years 7 and 8 will learn from home on 6th and 7th January**
- **Years 9, 10 and 11 will return to school on Thursday, January 6th**
- **All pupils will return on January 10th.**

Thank you again for your support and co-operation in a constantly changing situation

Laurel Davies.

Mrs Laurel Davies, Headteacher